❖ 'Deffrown, Deffrown'

Lawer blwyddyn yn ôl, cefais hen gopi o *Caniadau Bethlehem 1857* gan ffrindiau yn Aberdaron, llyfr bychan wedi ei gyhoeddi gan J. D. Jones, Rhuthun, a hwnnw'n llawn o garolau gan 'brifeirdd Cymru', ac alawon/ tonau mewn Hen Nodiant i'w gosod arnynt. Gwnaeth J. D. Jones gyfraniad gwerthfawr i gerddoriaeth Cymru ac mae llawer o'i donau'n boblogaidd – megis 'Capel y Ddôl'. Mae ynddo 22 o garolau maith gan feirdd megis Talhaiarn, Dafydd Ddu Eryri, Edward Jones, Maesyplwm a Robert Davies, Bardd Nantglyn, ac o ddethol dau neu dri phennill yn unig i'w canu'n gyhoeddus maent yn effeithiol dros ben. Gwrandewch ar hon, er enghraifft, gan Fardd Nantglyn:

Deffrown, deffrown, a rhown fawrhad, / cyn toriad dydd,
I ddwyfol aer y nefol wlad, / croesawiad sydd;
Fe ganodd sêr er bore'r byd, / sef holl angylion Duw ynghyd;
Fe ganodd y Proffwydi i gyd, / heb fod yn gau.
A pham na chanwn ninnau'n un / am gael Jehofa mawr ei hun
Mewn dull fel dyn, ac ar ein llun, / i'n gwir wellhau.

Dysgais ei chanu dros hanner can mlynedd yn ôl ar yr alaw 'Trymder' sydd yn y Modd Dorian, er nad hon yw'r alaw sydd gan J. D. Jones. Dydi ei dôn ef ddim hanner cystal. Dyma'r 'Trymder' sy'n hoff gen i:
Doh C:

{ m : l . t | l : - . l : . s . fe | m : - . m. : l . t. | d' : -
. l . : d' . r' | m' : - m' : r' . d' | t : - . m : l .t . | l : - . }

Swynwyd fi cymaint â'r alaw fel y bu'n rhaid imi ei gosod i sielo a thelyn; byddwn yn ei defnyddio mewn cyngherddau a rhaid oedd imi ei recordio ym 1954 gyda David Ffrancon Thomas yn canu'r sielo. Hwn oedd recordiad cyntaf cwmni Delysé.

Mae yna wyth pennill yn y gân, ac fel y byddem yn disgwyl, mae'n llawn o ddiwinyddiaeth hirwyntog yr oes honno; ond mi greda i ei bod hi'n werth dewis a chadw blas rhyw dipyn o'r hen garolau yn ein hoes 'oleuedig' ninnau.

Osian Elis